Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# **Gwrandawiad cyn penodi:** Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

17 Gorffennaf 2025

## 1. Cyflwyniad

### Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

**1.** Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn nodi bod rhaid i Lywodraeth Cymru benodi Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'n rôl statudol a benodir drwy'r broses penodiadau cyhoeddus.

**2.** Bydd y Cynghorydd Cenedlaethol yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i gynghori Gweinidogion Cymru a'u cynorthwyo i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth VAWDASV newydd ar gyfer 2022 i 2026 ym mis Mai 2022, a'i Glasbrint ym mis Mawrth 2023. [1]

[1] Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:strategaeth 2022 i 2026

### Rôl y Cynghorydd Cenedlaethol

**3.** Disgwylir i'r Cynghorydd Cenedlaethol fod yn arbenigwr ym maes VAWDASV. Mae swyddogaethau'r Cynghorydd Cenedlaethol, fel y'u nodir yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, yn cynnwys:

- cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch mynd ar drywydd diben y Ddeddf neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig;
- rhoi cymorth arall i Weinidogion Cymru wrth iddynt fynd ar drywydd diben y Ddeddf neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig;
- ymgymryd â gwaith ymchwil sy'n ymwneud â mynd ar drywydd diben y Ddeddf, mynd i'r afael â materion cysylltiedig neu archwilio a yw cam-drin o unrhyw fath yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag anghydraddoldeb o unrhyw fath rhwng pobl o rywedd gwahanol, hunaniaeth wahanol o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol gwahanol;
- cynghori unrhyw un a rhoi cymorth arall i unrhyw un, gyda chytundeb Gweinidogion Cymru, 0ar faterion sy'n ymwneud â mynd ar drywydd diben y Ddeddf neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig;
- llunio adroddiadau ar unrhyw fater sy'n ymwneud â diben y Ddeddf neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig.

## 2. Y broses o gynnal gwrandawiad cyn penodi

**4.** Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud ystod o benodiadau cyhoeddus. Mae Pwyllgorau'r Senedd yn ymgymryd â gwaith craffu cyn penodi ar benodiadau penodol, er mwyn gwella'r broses graffu a sicrhau bod y broses penodiadau cyhoeddus yn fwy tryloyw. Mae rhagor o wybodaeth am wrandawiadau cyn penodi ar gael ar wefan y Senedd.

**5.** Mae'r Cynghorwyr Cenedlaethol presennol yn rhannu'r swydd. Mae Yasmin Khan yn dod at ddiwedd ei hail dymor ac mae Johanna Robinson yn dod at ddiwedd ei thymor cyntaf. Cafodd eu contractau, a ddaeth i ben yn wreiddiol ar 31 Gorffennaf, eu hestyn tan 31 Hydref 2025 i sicrhau bod y cyngor i'r Gweinidogion yn parhau tra bydd y broses recriwtio lawn bresennol yn mynd rhagddi.

## Y broses recriwtio

**6.** Hysbysebwyd rôl y Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gan Lywodraeth Cymru ar 13 Chwefror 2025, dros gyfnod o chwe wythnos. Roedd 31 o geisiadau.

**7.** O'r 31 o geisiadau, gwahoddwyd 8 ymgeisydd i gam nesaf y broses recriwtio. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn rhanddeiliaid, a gynhaliwyd ar 7, 8 a 9 Mai, a chyfweliad ffurfiol gyda'r Panel Cynghori ar Asesu ar 19 a 20 Mai 2025.[2]

**8.** Ar ôl y cyfweliadau, cytunodd y panel i ystyried bod modd penodi tri ymgeisydd a rhoddodd eu henwau i Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, i'w hystyried. Yr ymgeisydd a ffefrir gan yr Ysgrifennydd Cabinet yw Johanna Robinson.

## Yr ymgeisydd a ffefrir

**9.** Ar hyn o bryd, mae Johanna Robinson yn rhannu swydd y Cynghorydd Cenedlaethol ac mae bellach yn gwneud cais am y swydd amser llawn. Cyn hynny, hi oedd Arweinydd Gweithredol Llamau yng Nghaerdydd. Mae wedi gweithio o'r blaen fel Pennaeth Strategaeth yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent ac fel Pennaeth Gwasanaethau Dioddefwyr Heddlu Gwent. Treuliodd dair blynedd yn gweithio fel Rheolwr Datblygu Cenedlaethol i The Survivors Trust.

# 3. Y gwrandawiad cyn penodi

**10.** Er mwyn llywio'r gwrandawiad, rhoddodd Llywodraeth Cymru bapur briffio i ni ar y broses recriwtio a datganiad personol a CV Johanna Robinson.

**11.** Cynhaliwyd y gwrandawiad ddydd Llun 14 Gorffennaf 2025 ac mae'r trawsgrifiad llawn ar gyfer y cyfarfod ar gael ar wefan y Pwyllgor. [3]

---

[2] Aelodau'r panel: Andrew Charles, Dirprwy Gyfarwyddwr Cymunedau Cydlynus, Llywodraeth Cymru, Nicola Edwards, Dirprwy Gyfarwyddwr Tegwch mewn Addysg, Llywodraeth Cymru a Pippa Britton, y Prif Aelod Annibynnol o'r Panel a Chadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru.
[3] Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y trafodion 14 07 25

# 4. Barn y Pwyllgor

**12.** Nodwn yr ymgeisydd a ffefrir gan yr Ysgrifennydd Cabinet, ar ran y Prif Weinidog,[16] ar gyfer rôl y Cynghorydd Cenedlaethol ac rydym yn croesawu'r cyfle i graffu ar yr ymgeisydd fel rhan o'r broses cyn penodi.

**13.** Rydym yn falch o gymeradwyo'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rôl y Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

**14.** Hoffem ddiolch i Johanna Robinson am ymgysylltu â ni ac edrychwn ymlaen at ragor o gyfleoedd i graffu ar ei gwaith yn ystod y Senedd hon.